

Nodiadau Astudiaeth Feiblaidd: Bod yn Ddisgybl 3

Y Gyffes – Mathew 16

Gweddi: Ein Tad, diolchwn i Ti unwaith eto am gael dod at ein gilydd i astudio dy Air. Bydd gyda ni yn ystod ein hamser yma, ac wrth i ni fyfyrio uwchben dy Air, a thrafod ei gynnwys, agor ein clustiau i glywed dy lais Di, ac agor ein calonau a'n meddyliau i ddylanwadau dy Ysbryd. Gofynnwn hyn yn enw Iesu. Amen.

Darllen: Mathew pennod 16, adnodau 13-20 (tud. 1183 yn beibl.net)

Croesgyfeiriadau: Luc 12: 8-12, Ioan 3: 16-21, Ioan 11: 23-27, Actau 16: 16-34, Rhufeiniaid 10: 9-13, Philipiaid 2: 4-11, 1 Pedr 1: 3-9.

Cyflwyniad: Pobl sy'n credu yw disgyblion yr Arglwydd Iesu Grist. O bosibl fod eu cred yn syml a chyntefig pan aethant i'w ddilyn ar y dechrau, ond yr oeddent yn credu digon ynddo i ymateb i'w alwad a dod yn ddisgyblion iddo. Dim ond yn raddol, wrth iddynt dreulio amser yn ei gwmni, a'i glywed yn siarad a'i weld yn gweithredu, y daethant i fedru mynegi eu cred mewn modd llawnach. Dyna ddigwyddodd gyda Simon Pedr yng nghyffiniau Cesarea Philipi pan ddywedodd yn ddirybudd wrth Iesu, 'Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw.' Yr oedd wedi ei deall pwy a beth ydoedd!

Er bod ein cymdeithas yn rhoi bri ar amheuaeth ac anghrediniaeth, pethau i'w concro ydynt. Hwyl yw gelynyddion ffydd a chred. Pan mae Duw yn cynnig iachawdwriaeth i ni yng Nghrist, nid oes amser i amau nac i betruso oherwydd, yng ngeiriau Paul, 'Os cyffesi yr Arglwydd Iesu a'th enau, a chredu yn dy galon fod Duw wedi ei godi ef oddi wrth y meirw, cei dy achub.' Dyma galon Cristnogaeth; dyma'r newyddion da y mae'r Efengyl yn ei gyhoeddi. Yn ôl Ioan, dyma pam y daeth Iesu Grist i'r byd, 'er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.'

Mae credu'n sylfaenol i'r ffydd, ac yn gwbl allweddol. Credwn ninnau, felly, â'n holl galon yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Cwestiynau:

1. Beth yw'r pethau pwysicaf y mae gofyn i ddisgyblion Iesu Grist, a Christnogion heddiw, eu credu?
2. Beth sydd fwyaf anodd ynglŷn â chyffesu Iesu Grist yn gyhoeddus y dyddiau hyn, a sut mae dod dros y pethau hynny?
3. Pa bryd y gall cyffes Gristnogol droi'n rhwystr i eraill ddod at Iesu?

Gweddi: Yn dy drugaredd, O Dduw, yr wyt Ti wedi dod a ni i gredu yn dy Fab ac yn y gwaith a gyflawnodd ar Galfaria er mwyn ein hachub ni. Diolchwn i Ti a bendigwn dy Enw. Yn awr, gloywa'n tystiolaeth; caniatâ i ni gyffesu Iesu yn yr Arglwydd heb ofn, ond gwneud hynny mewn modd fydd yn denu pobl eraill ato. Clyw ein cri, yn enw Iesu. Amen.